CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL
Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Ebost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Mawrth 26 2019 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday March 26 2019 at 7pm.

Presennol/*Present:* Gordon Warren (Cadeirydd/Chair), Gareth Winston Roberts OBE, Myrddin Owens, Meg Roberts, Mike Roberts, Carys Hughes, Gerry Belanger, Gina Jones

Yn bresennol/*In attendance*: Carli Evans-Thau (Clerc/*Clerk),* Richard Roberts (Cyfieithu/*Translation),* Aelod o'r cyhoedd / *Member of the public.*

Ymddiheuriadau/*Apologies*: John Byast, Richard Jones, Julie Ann Hughes, Liz Wood, Kevin Ellis, Cyng/Cllr Aled Jones

Yn Absennol/*Absent:* Cyng/Cllr Richard Griffiths

1 Croeso ac Ymddiheuriadau/*Welcome and Apologies*
Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gordon Warren ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by Gordon Warren and all present were welcomed.

2 Datgan Diddordeb/*Declaration of Interest*
Gareth Roberts – Cais am arian Hyfforddiant Parys Training Request for Funding (6)
Carli Evans Thau – Cais am arian Hyfforddiant Parys Training Request for Funding (6)
Myrddin Owens – Cwyn i'r Ombwdsmon / Complaint to the Ombudsman (6)
Gina Jones – Prosiect Loteri a Caru Amlwch / Lottery Project and Caru Amlwch (7)

Cyn l'r cyfarfod gychwyn, dywedodd Mryddin Owens bod y Clerc, yn ei swydd fel Clerc i Gyngor Cymuned Llanbadrig, wedi cael cyngor gan Un Llais Cymru o ran recordio cyfarfodydd y Cyngor. Cadarnhawyd 1) bod angen i'r aelodau ac aelodau o'r cyhoedd ofyn a chael caniatad i wneud hyn cyn pob cyfarfod, 2) bydd angen i recordiad y Cyngor o'r cyfarfod gael ei ddileu cyn gynted ag y caiff cofnodion y cyfarfod hwnnw eu cymeradwyo.

Dywedodd Myrddin Owens ei fod wedi edrych ar Atodlen 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel a nodwyd gan Un Llais Cyrmu a'i fod yn disgwyl am fwy o eglurder ar y mater. Roedd yn gobeithio y byddai mwy o wybodaeth i law erbyn y cyfarfod nesaf o ran y gofynion cyfreithiol. Cafodd pryderon yn ymwneud gyda chopiau tywyllodrus neu rai wedi eu doctora o'r recordiadau eu trafod. Roedd yr aelodau wedi cynnig eisoes bod y recordiadau yn cael eu cadw am 3-6 mis.

Mryddin Owens i geisio cael mwy o wybodaeth ac eglurder ynghylch y mater gan Un Llais Cymru ac i adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf. Dywedodd bod angen i'r Cyngor gydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth ac mai nid mater i'r aelodau benderfynu arno oedd hyn.

Before the meeting proper got underway, Myrddin Owens noted that the Clerk, in her role as Clerk for Llanbadrig Community Council, had received advice from One Voice Wales regarding the recording of Council meetings. It was confirmed that 1) members, or members of the public must request and be given approval prior to each meeting, 2) the council's recording of the meeting is to be erased as soon as the minutes from that meeting are ratified.

Myrddin Owens noted that he had looked into Schedule 12 of the Local Government Act 1972 as noted by One Voice Wales, but was waiting on further clarification on the matter. He hoped that further information will be available by the next meeting regarding the demands of the legislation. Concerns regarding rogue and manipulated copies of audio recordings were discussed. Members had previously proposed that recordings be kept for 3-6 months.

Myrddin Owens to obtain further information and clarification regarding the matter from One Voice Wales and report back at the next meeting. He noted that the Council had to comply with the legislation and that it was not a decision for the members to make.

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/*Minutes of the last meeting*

Cynnigwyd bod y cofnodion yn gywir. Cynnig Myrddin Owens, eilio Meg Roberts.
The minutes were proposed a true record. Proposed Myrddin Owens; seconded Meg Roberts.

4 Materion yn codi/*Matters Arising*

4.1 Ymylon ffyrdd (9) – dim ymateb gan GSYM hyd yn hyn
Grass Verges (9) – no response from IACC as yet

4.2 Diweddariad Gwasanaeth Bysiau (12.1) – cadarnhawyd bod y bysiau yn ol yn Lon Goch yn dilyn Dŵr Cymru yn cwblhau y gwaith ar y ffordd. Disgwylir e-bost gan Iwan Cadwaladr (Swyddog Trafnidiaeth CSYM) mewn perthynas â'r lleilhad mewn gwasanaethau bysiau o Amlwch. Nododd yr aelodau eu pryderon bod y cynnydd mewn treth cyngor yn cael effaith mawr ar aelodau tlotaf y gymuned.

Bus Service Update (12.1) – it was confirmed that the busses had returned to Lon Goch following the completion of the Welsh Water roadworks. An email is expected from Iwan Cadwaladr (IACC Transport Officer) regarding the reduction in available bus services from Amlwch. Members noted their concern that the increase in council rates was having a major impact on the poorest members of the community.

4.3 Tanceri Dŵr Cymru (14.1) – mae'r sefydliad wedi cadarnhau bod y cerbydau sy'n mynd yn ôl ac ymlaen o Safle Octel yn symud gwastraff o hen orsaf pwmpio Dŵr Cymru ar gyfer cael ei drin.

Welsh Water Tankers (14.1) – the organisation has confirmed that the vehicles entering the old Octel Site are removing waste from the Welsh Water pumping station to be taken away for treatment.

4.4 *Priffyrdd (marciau ar y ffordd) - dim diweddariad hyd yn hyn.*
Highways (Road markings) – no update as yet.

5 Pwyllgorau Allannol / *External Meetings*

5.1 Siapio Cymunedau (12/3/2019) – Bu i Gordon Warren ddosbarthu adroddiad ar ôl iddo fynychu'r cyfarfod. Dywedodd Carys Hughes iddi gael ei hethol yn Gadeirydd y grŵp, gyda Tony Fitzmaurice yn Is-gadeirydd a Kevin Ellis yn Ysgrifennydd. Dywedodd y bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei drefnu yn Amlwch yn fuan, a bydd cynnwys yr agenda yn cael ei gytuno gydag Annwen Morgan a fydd yn dangos cefnogaeth a chyfraniad CSYM i'r rhaglen. Cytunodd Carys Hughes i roi gwybod i'r Cyngor Tref am unrhyw ddatblygiadau.

Place Shaping (12/3/2019) – Gordon Warren distributed a report following his attendance at the meeting. Carys Hughes noted that she had been elected Chair of the group, with Tony Fitzmaurice Vice Chair and Kevin Ellis Secretary. She noted that a public meeting is to be arranged in Amlwch soon, the agenda for which will be agreed with Annwen Morgan, thus demonstrating IACC support and input into the programme. Carys Hughes agreed to report any developments to the Town Council for information.

5.2 Fforwm Cyswllt Tref a Chymuned (14/3/2019) – Bu i Gordon Warren ddosbarthu adroddiad ar ôl iddo fynychu'r cyfarfod.

Town and Community Liaison Forum (14/3/2019) – Gordon Warren distributed a report following his attendance.

6 Pwyllgor Cyllid / *Finance Committee*

Bu i Myrddin Owens adael y cyfarfod. Hysbyswyd y rhai a oedd yn bresennol bod cwyn wedi ei gyflwyno i'r Ombwdsman yn ei erbyn. Dychwelodd Myrddin Owens i'r cyfarfod.

Rhoddwyd crynodeb o'r pwyllgor cyllid gan gadeirydd y pwyllgor. Nodwyd bod yr aelodau yn anhapus o ran yr amser yr oedd yn ei gymryd i'r Ombwdsman i ymchwilio i gwyn a wnaed iddo ym mis Mehefin 2018, gyda'r ymchwiliad yn dal i barhau. Nodwyd bod y gwyn wedi ei gyflwyno gan Myrddin Owens ar ran y pwyllgor cyllid fel a gytunwyd gan Gareth Roberts, Gordon Warren a Liz Wood. Dywedodd Myrddin Owens nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod gwreiddiol ac felly nid oedd ganddo lais yn y mater a'i fod felly yn gweithredu ar ran y pwyllgor ac nid fel unigolyn.

Dywedwyd wrth y rhai a oedd yn bresennol bod y grwp prosiect loteri wedi llunio Memorandwm Dealltwriaeth (MOU) a bod y ddau barti yn cytuno ar ei gynnwys. Mae'r MOU yn amod o'r arian grant ac yn datgan yr hyn sy'n ddisgwyliedig o'r partion a phwy sy'n gyfrifol am pa agwedd o'r prosiect. Roedd y pwyllgor cyllid yn hapus i'r grwp prosiect i arwyddo'r ddogfen. Nid oedd gwrthwynebiad.

Nodwyd bod gan y clerc restr o'r taliadau a gymeradwywyd petai rhywun angen mwy o wybodaeth.

Cafodd pedwar cais ar gyfer cymorth ariannol eu cymeradwyo gan y pwyllgor cyllid a'u cyflwyno i'r cyngor ar gyfer sêl bendith:

- Clwb Pêl Droed Amlwch- cyfraniad o £1500 tuag at gostau rhedeg. Dim gwrthwynebiad.
- Age Well Amlwch £3000 tuag at gyflogi dwy swydd rhan amser. Dim gwrthwynbiad.
- Arwydd £1000 tuag at gostau argraffu. Dim gwrthwynebiad (un bleidlais wedi ei hatal)
- Hyfforddiant Parys Training £2000 tuag at offer T.G. 5 o blaid (GMW/MWO/MFR/MJR/GB), 1 gwrthwynebiad (CH), 1 bleidlais wedi ei hatal (GJ)

Nodwyd y dylai unrhyw sefydliad sy'n llwyddo i gael cymorth ariannol gan y Cyngor gydnabod hynny fel amod o gael yr arian.

Dywedodd Myrddin Owens bod CSYM wedi rhoi opsiwn i'r Cyngor i dalu'r rhent ar gyfer maes chwarae newydd Maes Llwyn mewn un lwmp swm. Roedd y pwyllgor cyllid yn hapus i wneud hynny a hefyd i gynyddu tymor y brydles i 25 mlynedd. Mae prydles am gyfnod hwy yn fuddiol o ran ceisio cael arian grant. Dim gwrthwynebiad.

Adroddiad Awdit y Pwyllgor Craffu – hysbyswyd pawb a oedd yn bresennol y caed adroddiad positif yn dilyn yr awdit. Yr unig bwynt i'w nodi oedd nad yw aelodau yn cymryd mantais o'r cyfleon hyfforddiant sydd ar gael. Cytunwyd yn unfrydol bod cyfeiriad yn y cofnodion yn diolch i'r clerc am ei gwaith.

Cafodd y clerc a chadeirydd y pwyllgor cyllid hawl i weithredu i gael argraffydd/llungopïwr newydd ar gyfer y swyddfa. Dim gwrthwynebiad.

Mae'r cytundeb nwy i gael ei ymestyn am gyfnod o dair blynedd gyda British Gas ar delerau cystadleuol. Dim gwrthwynebiad.

Rhoed hawl i weithredu i'r clerc i gael cymorth proffesiynol fel bo'r angen ar gyfer gwaith cyfieithu. Pawb yn cytuno.

Myrddin Owens left the meeting room. Those present were informed that a complaint had been made to the Ombudsman against him. Myrddin Owens returned to the meeting room.

A summary of the finance meeting was given by the chair of the committee. It was noted that members were unhappy with the length of time taken by the Ombudsman to investigate a complaint presented back in June 2018, the investigation is still ongoing. It was noted that the complaint had been submitted by Myrddin Owens on behalf of the finance committee as agreed by Gareth Roberts, Gordon Warren and Liz Wood. Myrddin Owens noted that he hadn't been present at the original meeting and as such had no say in the matter and was acting on behalf of the committee and not as an individual.

Those present were informed that the lottery project group had developed a Memorandum of Understanding (MOU) and that both parties were in agreement with its content. The MOU is a condition of the grant funding and outlines what is expected of both parties and who is responsible for what aspect of the project. The finance committee are happy for the project group to sign the document. There was no objection.

It was noted that the clerk has a list of payments approved should any further information be required.

Four applications for funding were supported by the finance committee and put to the full council for endorsement:

- *Amlwch Town Football Club £1500 towards running costs. No objection.*
- *Age Well Amlwch £3000 towards employment of two p/t positions. No objection.*
- *Arwydd £1000 towards printing costs. No objection (1 abstention)*
- *Hyfforddiant Parys Training £2000 towards IT equipment. 5 in favour (GMW/MWO/MFR/MJR/GB), 1 objection (CH), 1 abstention (GJ)*

Noted that any organisation securing support from the Council should acknowledge the Council as a condition of the funding/support.

Myrddin Owesn noted that IACC have given the Council an option to pay the rent for the new Maes Llwyn Play Area in one lump sum. The finance committee were happy to do so, and also increase the period of lease up to 25 years. A longer lease is beneficial in order to secure grant funding. No objection.

Standards Committee Audit Report – all present were informed that a positive report had been received following the audit. The only point of note is that members do not take advantage of the training opportunities on offer. It was unanimously agreed that it be minuted that the clerk be thanked formally for her work.

The clerk and chair of finance were given the power to ask to obtain a new printer/photocopier for the office. No objection.

The gas contract is to be extended for a period of three years with British Gas at a competitive rate. No objection.

The clerk was given power to act to seek professional support with regard to translation work as required. All in agreement.

7 Prosiect Loteri/*Lottery Project*

Rhoddodd Mike Roberts ddiweddariad byr o weithgaredd y prosiect hyd yma. Gobeithir y bydd yr offer chwarae mewn lle erbyn gwyliau'r haf

Gofynwyd os oedd y Cyngor wedi cael £100k fel a ddatganwyd mewn cyfarfod cyhoeddus yn gynharach yn ystod y mis. Bu i'r aelodau a oedd yn bresennol yn y cyfarfod cyhoeddus gadarnhau bod datganiad wedi ei wneud gan un o gyfarwyddwyr y cwmni bod £100k wedi ei drosglwyddo gan Caru Amlwch i'r Cyngor Tref.

Dywedodd Myrddin Owens bod y grŵp prosiect yn cydweithio'n dda i ddatblygu a chyflawni'r prosiect. Ni fyddai'r grant loteri wedi ei sicrhau oni bai am gyfraniad y cyngor. Mae'r MOU yn datgan yr hyn sy'n ddisgwyliedig gan Caru Amlwch a'r Cyngor Tref ac yn un o'r amodau a benwyd gan y loteri. Mae'r Cyngor Tref yn gyfrifol am BOB penderfyniad mewn perthynas â'r prosiect a chyda'r gair olaf. Cafodd yr arian ei ddyrannu i'r Cyngor Tref.

Y canfyddiad yn y cyfarfod cyhoeddus oedd bod Caru Amlwch wedi rhoi £100k i'r Cyngor Tref, nid oedd y mwyafrif wedi sylweddoli mai arian grant loteri oedd dan sylw. Yn yr un cyfarfod dywedwyd nad oedd y Cyngor Tref wedi gwneud dim byd. Dywedodd Mike Roberts bod y grŵp prosiect yn gweithio i adeiladu pontydd a symud ymlaen gyda'r prosiect. Roedd y Cyngor Tref bob amser wedi cydnabod cyfraniad Caru Amlwch i'r prosiect. Nid oedd datganiadau cythruddol yn helpu dim.

Nodwyd bod y Cyngor Tref wastad wedi cefnogi cynigion Caru Amlwch yn y dref a'i bod yn hanfodol i gydweithio er budd y dref. Mae cyfrifoldeb ar Gynghorwyr i amddiffyn y Cyngor a siarad yn bositif amdano.

Mike Roberts gave a brief update of project activities to date. It is hoped that the play equipment will be in place by the summer holidays.

It was asked whether the council had received £100k as stated at a public meeting earlier on in the month. It was confirmed by members present at the public meeting that a statement had been made by one of the company directors that £100k had been transferred from Caru Amlwch to the Town Council.

Myrddin Owens noted that the project group are working together well to develop and deliver the project. The lottery grant would not have been secured were it not for the council's input. The MOU outlines the expectations from both Caru Amlwch and the Town Council and is one of the conditions set by the lottery. The Town Council is responsible for, and will have the final say in ALL decisions relating to the project. The funding has been awarded to the Town Council.

The perception at the public meeting was that Caru Amlwch had given the Town Council £100k, many had not realised that it was the lottery grant that was being referred to. At the same meeting, it was said that the Town Council had done nothing. Mike Roberts noted that the project group were working to build bridges and progress the project. Caru Amlwch's input into the project had always been acknowledged by the Town Council. Provocative statements do not help matters.

It was noted that the Town Council had always supported Caru Amlwch proposals in the town and that it was essential to work together for the benefit of the town. Councillors also have a responsibility to stand up for the Council in a positive light.

8 Wylfa Newydd

Rhoddodd Gareth Roberts ddiweddariad ar y sefyllfa drychinebus bresennol o ran colli swyddi yn yr ardal. Nodwyd bod llywodraeth y DU yn canolbwyntio gymaint ar Brexit fel nad yw yn gallu ymdrin gyda materion eraill.

Nododd Mike Roberts y byddai cyfleoedd yn codi maes o law o fewn y 5 -10 mlynedd nesaf gyda phrosiectau peirianyddol yn ymwneud gydag egni o'r môr. Mae angen cynnal trafodaethau rwan gyda'r awdurdodau perthnasol i sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei ddenu i'r ardal ar gyfer creu gwaith. Nodwyd bod gwelliannau i isadeiledd yr A5025 yn bwysig i ddenu buddsoddiad o'r fath.

Penderfynwyd yn unfrydol i ysgrifennu at Ken Skates i ofyn iddo gyfarfod gyda'r Cyngor. Cytunwyd hefyd i gysylltu gydag Albert Owen a Rhun ap Iorwerth fel a drafodwyd eisoes. Penderfynwyd bod angen rhestr o'r materion/penawdau i'w trafod gael eu cynnwys ar y cais am gyfarfod. Gellir defnyddio ystadegau o'r adroddiad siapio cymunedau petai angen tystiolaeth.

Gareth Roberts gave an update on the current, dire, situation with regard to employment losses in the area. It was noted that the UK government were too tied up with Brexit matters to be able to address any other issues.

Mike Roberts noted there would opportunities for engineering, and projects of a similar nature, potentially marine energy within 5-10 years. Talks need to take place now with relevant powers to ensure that investment is drawn to our area to provide employment opportunities. It was noted that improvements to the infrastructure eg the A5025 is important to draw in such investment.

Unanimously agreed to write to Ken Skates inviting him to meet with the Council. Also agreed to make contact again with Albert Owen and Rhun ap Iorwerth as previously discussed. Agreed that a list of matters/headings to be discussed be included in the meeting summons. The place shaping report statistics can be utilised as evidence if required.

9 Polisi Recordio Sain Cyfarfodydd/*Audio Recording or Meetings Policy*

Ymdriniwyd gyda hyn ar ddechrau'r cyfarfod.

Ymddiheurodd Gareth Roberts a gadael y cyfarfod.

Already addressed at the start of the meeting.

Gareth Roberts apologised and left the meeting.

10 Cyfryngau Cymdeithasol/*Social Media*

Rhoddwyd cyflwyniad gan Carys Hughes yn dangos templed o dudalen facebook a gafodd ei ddatblygu o wybodaeth ar y wefan a phosteri digwyddiadau. Nid oedd yr aelodau yn erbyn y syniad o gael tudalen facebook wedi ei rheoli, ar gyfer rhannu gwybodaeth. Fodd bynnag byddai angen penderfynu ar sut i'w rheoli a sut i gadw at hynny. Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei wneud yn iawn o'r dechrau. Y clerc i gysylltu gyda Un Llais Cymru i ofyn am arweiniad cyfreithiol ac ar bolisi ac ymarfer da. Y clerc a Carys Hughes i gyfarfod a pharatoi adroddiad yn crynhoi y mater i'r aelodau. Cafodd ei gydnabod y byddai rheolaeth y dudalen yn gyfrifoldeb y clerc yn y pen draw yn hytrach nag aelodau unigol.

Carys Hughes gave a presentation showing a facebook page template developed from the information on the website and events posters. Members were not adverse to the concept of the Council having a controlled facebook page for sharing information, however its management would need to be agreed and adhered to. It is important that it is done correctly from the onset. The clerk to contact One Voice Wales for legislative and policy guidance and best practice. The clerk and Carys Hughes to meet and prepare a summary paper for distribution to members. Acknowledged that the management of the page would ultimately rest with the clerk rather than individual members.

11 Canolfan Hamdden/*Leisure Centre*

Yn dilyn y difrod a'r lladrad diweddar yn y ganolfan hamdden, cafwyd cadarnhad bod system CCTV y Cyngor Tref yn cadw golwg ar yr ardal dan sylw a bod yr heddlu wedi bod yn gweld y tâp. Nodwyd y byddai'r lluniau wedi bod o well safon petai modd gwella y golau y tu allan i'r ganolfan hamdden. Cytunwyd i ysgrifennu at GSYM i ofyn am well golau yn yr ardal.

Cafodd yr wybodaeth a ddaeth i law trwy Gais am Wybodaeth ei dosbarthu i'r rhai a oedd yn bresennol. Gofynnodd Meg Roberts am fwy o wybodaeth h.y pa grwpiau sy'n defnyddio'r ganolfan a pha bryd. Awgrymwyd y dylid gwahodd swyddog i gyfarfod gydag aelodau i drafod hyn ymhellach yn hytrach nag anfon e-byst yn ôl ac ymlaen fis ar ôl mis. Cynigiwyd gan Mike Roberts, eiliwyd gan Meg Roberts, a phawb yn cytuno.

Following recent damage and theft at the leisure centre, it was confirmed that the Town Council's CCTV system does cover the area in question and that the police have been to view the footage. It was noted that the images would be of much better quality if the lighting outside the leisure centre was improved. Agreed to write to IACC to ask for improved lighting in the area.

The information obtained via the FOI request was distributed to those present. Meg Roberts asked that further information be provided i.e. what groups use the centre and when. It was suggested that an officer be invited to meet with the members to discuss further rather than emailing back and forth month after month. Proposed Mike Roberts, seconded Meg Roberts, all in agreement

12 Cwestiynau i'r Cynghorwyr Sirol/*Questions to the County Councillors*

Dywedodd Myrddin Owens ei fod yn bwriadu cyflwyno cais swyddogol i GSYM yn gofyn pwy o blith y Cynghorwyr Sir a wnaeth bleidleisio o blaid neu yn erbyn y cynnydd diweddar yn nhreth y cyngor. Dywedodd y byddai wedi gofyn yn uniongyrchol i aelodau ward Twrcelyn petaent wedi bod yn bresennol.

Myrddin Owens noted that he intended to present an official request to IACC asking who of the county councillors voted in favour of, and against the recent increase in council tax. He noted that he would have asked the Twrcelyn ward members in person had they been present.

13 Gohebiaeth / *Correspondence*

13.1 Rhybudd cau ffordd yn Stryd Wesley gan fod Dŵr Cymru yn gwneud gwaith uwchraddio.
Notice of road closure at Wesley Street due to Welsh Water upgrades.

13.2 E-bost gan Mike Parry, Cyngor Tref Pwllheli yn gofyn am gefnogaeth i wrthwynebu cau y gwasanaethau fasgwlaidd brys yn Ysbyty Gwynedd. Cytunwyd i ysgrifennu i gefnogi a hefyd yn uniongyrchol at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Email from Mike Parry, Pwllheli Town Council asking for support to oppose the closure of the emergency vascular services at Ysbyty Gwynedd. Agreed to write in support and also to the Betsi Cadwaladr University Health Board.

14 Unrhyw Fater Arall/*Any Other Business*

14.1 Gofynnodd Meg Roberts a oedd modd gosod cwrb wedi ei ostwng ger 2 Mona Lodge gan fod trigiolion gyda phroblemau symud yn gorfod cerdded cryn bellter i allu dod oddi ar y palmant gan fod y cwrb yn reit uchel. Roedd problem debyg gyda'r mannau parcio anabl yn y maes parcio ger y Neuadd goffa. Cytunwyd i ysgrifennu at adran gwasanaethau cymdeithasol CYM gyda chopi i'r adran priffyrdd i nodi pryderon yr aelodau**.**

Meg Roberts asked whether a dropped kerb could be fitted by 2 Mona Lodge as local residents with mobility issues had to walk some considerable distance to get off the pavement as the kerb is very high. The same issue has been identified by the disable parking bays at the car park by the memorial hall. Agreed to write to IACC social services dept. with a copy to the highways dept. highlighting the issues and members' concern.

14.2 Gofynnodd Mike Roberts a oedd modd iddo gael gweld tâp o recordiad CCTV mewn perthynas â mater o gŵn yn baeddu yn Stryd Mona. Nodwyd bod angen cyferirio hyn at yr heddlu ac mai nhw ddylai ofyn am gael gweld y tâp yn unol gyda'u pwerau gorfodaeth. Cytunwyd bod Mike Roberts yn cysylltu gyda'r heddlu gyda'r manylion perthnasol.

Mike Roberts asked whether he would able to view recorded CCTV footage with regard to a dog fouling issue in Mona Street. It was noted that such a matter should be directed to the police, and that they should be the ones making the request to view footage in line with their powers of enforcement. Agreed Mike Roberts would contact the police with the relevant details.

15 Dyddiad y cyfarfod nesaf/*Date of next meeting*

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Fawrth Ebrill 23 2019 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor.
The next meeting will take place on Tuesday April 23 2019 at 7pm at the Council Chamber.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.50 / *The meeting closed at 20.50*

Arwyddwyd / Signed:
Gordon Warren, Cadeirydd / Chair